**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**
**Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 15) (fel y'i diwygiwyd)**

## Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg 2021-2036

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi paratoi dogfennau cynigion cyn-adneuo ar gyfer y cynllun uchod. Ar ôl ei fabwysiadu bydd y Cynllun Datblygu Lleol CDLlN yn disodli'r cynllun datblygu presennol a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir mewn materion cynllunio ym Mro Morgannwg.

Gwahoddir sylwadau ar y dogfennau cynigion cyn-adneuo sy'n amlinellu gweledigaeth, opsiynau strategol, strategaeth a ffefrir a pholisïau allweddol yr Awdurdod, ac sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol allweddol ac adroddiad arfarniad cynaliadwyedd cychwynnol (sy'n cynnwys yr adroddiad amgylcheddol).

Gwahoddir sylwadau hefyd ar y safleoedd ymgeisiol a restrir yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd yn ystod yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r dogfennau cefndir ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor (www.bromorgannwg.gov.uk/cdll) a chopïau hefyd ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa / oriau agor arferol yn y lleoliadau canlynol:

- Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU
- Llyfrgell y Barri
- Llyfrgell y Bont-faen
- Llyfrgell Llanilltud Fawr
- Llyfrgell Penarth

**Mae'r cyfnod ymgynghori yn rhedeg am 10 wythnos rhwng Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2023 a Dydd Mercher 14eg o Chwefror 2024. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 23:59 ar 14eg o Chwefror 2024.**

Mae'r Cyngor yn annog sylwadau i'w cyflwyno'n electronig drwy ei borth ymgynghori ar-lein yn https://bromorgannwg.oc2.uk/ Fodd bynnag, bydd ymatebion ysgrifenedig a gyflwynir drwy'r post neu e-bost hefyd yn cael eu derbyn. Gellir lawrlwytho ffurflenni sylwadau o wefan y Cyngor neu maent ar gael yn y lleoliadau uchod.

Gellir anfon ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at ldp@valeofglamorgan.gov.uk neu eu postio at Bolisi Cynllunio, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Doc, Subway Road, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4RT.

Bydd sylwadau sy'n cael eu gwneud yn briodol, ac a gyflwynir yn briodol o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig, yn cael eu cydnabod a'u hadrodd mewn modd priodol i'r Cyngor iddo'u hystyried.

Gellir cyflwyno sylwadau gyda chais i gael eich hysbysu mewn cyfeiriad penodol o gam nesaf y CDLlN a/neu fod y CDLlN wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Annibynnol a/neu fabwysiadu'r cynllun.

Dim ond yn unol â'r hysbysiad hwn y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried sylwadau. Ni fydd sylwadau a wneir yn y cam cyn-adneuo presennol yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd a benodir i gynnal yr Archwiliad Annibynnol. Bydd cyfle pellach i gyflwyno sylwadau yn y cam Adneuo a bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried yn yr Archwiliad.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses CDLlN a dogfennau cefndir perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk/cdll